**From:** Roberts, Emyr [mailto:emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk]
**Sent:** 25 February 2014 13:49
**To:** Gareth Clubb
**Cc:** Hornung, Catrin
**Subject:** RE: Cylchdaith Rasio Blaenau Gwent

Annwyl Gareth,

Diolch i chi am eich neges e-bost dyddiedig 29 Ionawr 2014. Gallaf gadarnhau nad ydym wedi cynnal unrhyw ymchwiliadau mewnol fel y rhai a ddisgrifiwch yn eich neges, ac ar hyn o bryd nid oes gennym na bwriad nac achos gwneud hynny. Deallaf y ddiddordeb cyhoeddus yn yr achos hwn, ac yr ydym yn parhau i gynghori'r awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr, yn unol â'n dyletswyddau ni.

Trwy ein gwrthwynebiad i'r achos hwn ar yr adeg y rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol, fe wnaethom godi nifer o byncíau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys sŵn. Ystyriwyd y materion hyn gan CBS Blaenau Gwent yn y penderfyniad i roi caniatâd amlinellol.

Y mae ein llythyr at Lywodraeth Cymru, yn ymateb i'r cais am gyngor ynghylch galw i mewn, yn esbonio ein safbwynt ynghylch sut y bu inni ystyried y pynciau hynny y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y dyfodol, gan gynnwys trwy ddefnyddio'r Datganiad Tir Cyffredin cydrhyngom ni a Chwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd.

Yn gywir,
Emyr


Emyr Roberts
Prif Weithredwr / Chief Executive
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Ty Cambria / Cambria House
Heol Casnewydd / Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP

Ffôn/Tel: 0300 065 4444

E-bost/E-mail: mailto:emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk / emyr.roberts@naturalresourceswales.gov.uk

Gwefan / Website: http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/ / http://www.naturalresourceswales.gov.uk/



Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg Correspondence welcomed in Welsh and English

**Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddion yn gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.**

**Our purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably maintained, enhanced and used, now and in the future.**

**From:** Gareth Clubb [mailto:gareth.clubb@foe.co.uk]
**Sent:** 29 January 2014 14:14
**To:** Roberts, Emyr
**Cc:** Hornung, Catrin
**Subject:** Cylchdaith Rasio Blaenau Gwent

Annwyl Emyr,
Yn dilyn ein sgwrs parthed Cylchdaith Rasio Cymru yn ein cyfarfod ar 20 Tachwedd 2013, baswn yn ddiolchgar iawn petaech chi'n gallu fy hysbysu:
- A ydych wedi cychwyn ymchwiliad mewnol i fethiannau Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried sŵn fel effaith o bwys mwy na lleol yn unig?
- A ydych wedi cychwyn ymchwiliad mewnol i fethiannau Cyfoeth Naturiol Cymru i argymell galw'r cais i mewn, gan ystyried mor wan oedd y cytundeb (Statement of Common Ground) a oedd wedi cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio argymell galw'r cais i mewn?
- Os felly, pryd fydd yr ymchwiliadau hyn yn dod i ben?
- Os nad ydych, pam ydych wedi methu â gwneud?
Yn gywir,
Gareth Clubb

--
**Gareth Clubb CEnv MIWA**
**Cyfarwyddwr - Director**
**Cyfeillion y Ddaear Cymru - Friends of the Earth Cymru**

Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg

Ffôn - Tel: 02920 229577
www.foecymru.co.uk